

Targedau	Sut rydych wedi gweithio ar hwn	Ceir enghraifft ar
Targed/Target 1	Parhau i ddatblygu sgiliau dadansoddi beirniadol trwy gymharu ffynonellau academaidd.	Tudalen 3 “Fodd bynnag, mae Rutter (1981) yn credu bod ymchwil Bowlby yn annibynadwy...”
Targed/Target 2	Darllen yn ehangach gan gynnwys amrywiaeth o safbwyntiau academaidd	Tudalen 10

Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfiriwch yn feirniadol ar sut y byddech yn cefnogi dysgwr unigol sydd a'i g/chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau penodol i'w dd/dysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol).

Rhan 1

Mae ymchwil yn awgrymu bod y pontio rhwng cyfnodau addysg plentyndod cynnar ac addysg gynradd wedi bod yn bwnc o ddiddordeb ar gyfer ymchwil dros y degawd diwethaf (González-Moreira, Ferreira a Vidal, 2021). Gall pontio llorweddol a fertigol fod yn her i bob plentyn ond pan fydd gan unigolyn rwystrau penodol i'w ddysgu gall y camau cynnydd hollbwysig hyn yn eu datblygiad fod yn frawychus, ac os na chânt eu rheoli'n ofalus gan ymarferwyr niweidiol. Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â pharhad yn y cyfnod pontio yn gymhleth. Eisoës yn 1987, nododd Watt (2019) fod y trawsnewid addysgol hwn yn cynnwys gwahanol ddimensiynau sefydliadol a chwricwlaidd sy'n effeithio ar gyd-destunau gwleidyddol, cymdeithasol, teuluol ac unigol. Flynnyddoedd yn ddiweddarach, soniodd Bowman (1993) fod y gofal a'r hyfforddiant y dylid eu rhoi i blant trwy gydol y cyfnod hwn cyn yr ysgol gynradd o fewn yr un cyfnod datblygiadol ag ym mlynnyddoedd cyntaf yr ysgol gynradd a, felly, dylai'r ddau gam rannu egwyddorion ac arfer cyffredin.

Rwyf wedi penderfynu seilio'r darn hwn o waith ar blentyn yn symud o leoliad Blynnyddoedd Cynnar i ystafell ddosbarth Blwyddyn Un. Pwrpas yr aseiniad yma yw i gyflwyno strategaethau ac ymyrraeth i gynorthwyo disgybl, gydag anghenion ymddygiadol. Gelwir y disgybl yma yn Efa. Rhoddir y ffugenw yma er mwyn sicrhau cyfrinachedd y plentyn wrth drafod materion personol a sensitif. Mae'n barchus defnyddio enw gwahanol gan fod ei chefnidir heriol yn cynnwys ffeithiau sensitif a chyfrinachol. Amlygir hyn gan Crow a Wiles (2008).

Yn y rhan gyntaf yr aseiniad bydd y ffocws ar Efa, ei chefnidir ar heriau y mae'r cyfnod o drosglwyddo hwn yn cyflwyno. Yn yr ail ran fe fydd proffil un tudalen yn cael eu cyflwyno a'i esbonio ac i ddilyn hyn trafodaeth ar y cynllun cymorth i gefnogi Efa.

Mae ei datblygiad emosiynol yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad Efa o ganlyniad i'w chefnidir heriol. Roedd yn amlwg yn syth ar ôl y cyfnod pontio o'i lleoliad Blynnyddoedd Cynnar i Flwyddyn un fod angen ymyrraeth ar frys. Mae amheuaeth hefyd bod ymddygiad Efa o ganlyniad i'w chefnir a bagiad heriol a wnaeth ei ymddygiad gweithygu wrth iddi drosglwyddo o amgylchedd Blynnyddoedd Cynnar i mewn i ddosbarth blwyddyn un.

Gellir ymddygiad Efa bod yn heriol o fewn y dosbarth ac nid oes ganddi'r sgiliau i reoli ei theimladau. Mewn dialogau proffesiynol am Efa ai hanawsterau, mae wedi cael ei gadarnhau bod ganddi Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADCG). Mae Ryder (2013) yn cyfeirio at ADCG fel "hidden disability, where a child will exhibit behavioural, emotional and social difficulties". Mae hi'n bwysig deall y wahaniaeth rhwng yr anabledd cudd yma ac ymddygiad wael. Weithiau mae pobl yn edrych ar y plant hyn fel plant drwg ond, nid yw hyn yn wir. Gall ADCG cael effaith sylweddol ar berthynas gyda chyfoedion a bywyd ysgol os na chaiff ei reoli'n briodol (GIG, 2016). Felly, mae'n bwysig dechrau ymyrraeth gynnar wrth nodi'r risg y bydd anawsterau'r plentyn yn arwain at ganlyniadau gwael yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru (2019) yn nodi "Gall ymyrraeth gynnar fod yn allweddol i lwyddiant", ac wrth gwrs, dyma'r nod i bob plentyn.

Fel nodwyd eisoes mae ymddygiad a materion emosiynol Efa yn gyd-destunol ac yn ddiamau maent yn effeithio ar ei datblygiad. Gelwir y rhain, Profiadau Niweidiol Mewn Plentynodod (ACEs) (Bellis et al, 2016, t.2). Mae trawma ym mlynnyddoedd cynnar ei bywyd, heb os, wedi effeithio ar ei datblygiad emosiynol. Mae ei rhieni wedi gwahanu yn dilyn cam-drin domestig a welodd ac yr oedd yn ddiodeffwr iddo. Mae Efa, felly, yn dioddef o ddau ACE. Mae Mam Efa bellach mewn perthynas newydd ac mae ganddi chwaer iau. Yn anffodus, nid yw ei sefyllfa yn unigryw. Yng Nghymru mae 47% o oedolion wedi dioddef o leiaf un (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016, t.2). Mae Efa gallu bod yn grac iawn, mae hi'n taro allan ac yn tueddu i redeg pan nad oes ganddi ei ffordd ei hun. Mae hi'n hoffi sylw oedolyn ac nid oes ots ganddi a yw hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol. Gall gyflawni gweithgareddau'n annibynnol ond mae'n gwneud hynny ar ei thelerau. Gallai hyn gael effaith andwyol ar ei chyrhaeddiad os bydd ei hymddygiad yn parhau wrth iddi fynd yn hŷn. Mae hunanbarch isel iawn gyda Efa ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016), wedi dod i'r casgliad bod cysylltiad cryf rhwng plant fel Efa a'r tarwma maent wedi dioddef. Gall cael cefndir cartref anodd hefyd gael effaith ar ddatblygiad yr ymennydd, yn enwedig yr 'amygdala' sef y maes lle penderfynir ar ymatebion emosiynol (NCMH, 2019). O ganlyniad i hyn, mae Efa yn tueddu i gael trafferth rheoli ei hemosiynau ac yn aml yn colli ei thymer. Mae Siegel (2014) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd trafod gyda phlant er mwyn gallu enwi'r teimlad, ac yna dod i benderfyniad ar sut y gellir rheoli neu oresgyn y teimlad hwn. Anogir Efa i ddefnyddio ei fwrdd emosiynau yn gyson o fewn y dosbarth pan sydd i weld fel atodiad 2. Mae hyn yn rhoi rheolaeth i Efa dros emosiynau ei hun. Y gobaith yw y bydd strategaethau ymdopi a gyflwynir nawr fel rhan o'r cynllun cefnogaeth yn ei helpu trwy gydol ei hoes.

O ganlyniad i gefndir Efa, mae'n hollbwysig ei bod yn cael cyfleoedd i ddysgu a llwyddo. Mae ei lles emosiynol yn allweddol i hyn gan fod ganddi hunan-barch isel ac mae'n galed iawn arni ei hun. Mae'r damcaniaethwyr dyneiddiol gan gynnwys Rogers (1951) yn pwysleisio bod hunanwerth unigolyn yn datblygu yn ystod plentynodod cynnar o'r rhyngweithiadau cyntaf rhwng plentyn a'i rieni. Ni chafodd Efa brofiadau cadarnhaol sy'n cyfrif am ei hunanwerth isel. I Efa mae teimlo'n ddiogel yn hollbwysig felly mae'n rhaid iddi gael amgylchedd sy'n rhoi "honesty, acceptance and empathy" iddi ac sy'n annog llwyddiant (Rogers, 1951). Rhaid rhoi cyfleoedd iddi sy'n briodol i'w hanghenion ac sy'n gyraeddadwy fel bod ei hunanhyder a'i hunan-barch yn cael eu targedu er mwyn datblygu ei lles emosiynol. Bydd y rhain yn cael eu hamlinellu wrth drafod ei chynllun cymorth. Amlinellir

y farn wrthwynebol i hyn gan Newman (2015) pan nododd fod caniatáu i blentyn lwyddo drwy'r amser yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Y ddadl yw bod angen herio plant ac ymdopi â methiant er mwyn delio â bywyd oedolyn. Dywed Newman y gall ofn methiant gael ei ysgogi mewn plant nad ydynt yn cael eu cwestiynu gan her. Mae angen sicrhau cydbwysedd ar gyfer Efa. Mae angen ei gwrthio gan fod ei chyrhaeddiad yn y dosbarth yn uchel ond mae angen iddi hefyd lwyddo er mwyn cynyddu ei hunan-barch.

Mae Theori Ymlyniad John Bowlby (1969) hefyd yn pwysleisio y gall y gofal y mae plentyn yn ei dderbyn yn ystod cyfnodau cynnar bywyd gael effaith enfawr. Mae'n amlinellu bod angen ymlyniad sefydlog ar blentyn i'w brif ofalwr. Mae'n credu bod "a critical period for attachment development" rhwng chewch a trideg mis er mwyn cyrraedd y camau datblygu perthnasol. Unwaith eto, wrth ystyried hunanwerth plentyn, mae Bowlby yn cefnogi bod plant sydd wedi ffurfio ymlyniad cadarn gyda gofalwr sylfaenol yn fwy tebygol o ddatblygu hunanwerth cryfach wrth iddynt aeddfedu, yn ogystal â hyder i weithio'n annibynnol. Ni chafodd Efa hyn yn ifanc gan fod y perthnasoedd o'i chwmpas yn gyfnewidiol a threisgar. Fodd bynnag, mae Weiss (2006) yn credu bod ymchwil Bowlby yn annibynadwy ac na ddylid cyffredinolli plant â phroblemau ymlyniad, gan ei fod yn amgylchiadol.

Er mai prif ffocws Efa yw datblygu ei lles emosiynol, mae'r ymyrraeth a gynllunnir yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu agweddau eraill hefyd. Mae angen ymagwedd gyfannol i ystyried sut mae'r ymyriad yn datblygu mwy nag un agwedd ar ddysgu plentyn er mwyn datblygu'n llawn. Cyfeirir at hyn yn aml yn nogfen Ddyfodol Lwyddiannus (Donaldson 2015, t.82) sy'n pwysleisio pwysigrwydd edrych ar blentyn yn ei gyfanrwydd ac nid dim ond un agwedd ar ei anghenion.

Mae Foudová a Slowík (2017) yn esbonio bod y proffil un dudalen wedi'i greu'n wreiddiol ym Mhrydain Fawr gan Y Gymuned sy'n Dysgu mewn ymgais i wneud y defnydd gorau o'r dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gael mynediad i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Y nod yw creu system gymorth ar gyfer unigolyn sy'n seiliedig ar eu hanghenion penodol. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gofyn am ysgol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Y brif egwyddor yw cyfranogiad gweithredol y plentyn yn y broses gynllunio a darparu cefnogaeth a chymorth i gyflawni ei nodau. Un o'r technegau y gellir ei ddefnyddio yn yr ysgol yw'r proffil myfyriwr un dudalen (Foudová a Slowík, 2012). Mae proffil un dudalen yn grynodeb o wybodaeth am blentyn sy'n amlygu ei gryfderau ac yn helpu'r athro i gefnogi'r myfyriwr orau wrth addysgu a dod o hyd i'r ffyrdd mwyaf addas o gyflawni'r nodau gosodedig. Mae'r proffil yn crynhoi popeth y mae'r plentyn yn gofalu amdano ac yn cynnig arweiniad ar sut y gall eraill ei gefnogi. Pan gaiff ei ddefnyddio yn addysg ysgol disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, mae'r proffil yn helpu i greu cynllun addysg unigol ymarferol o ansawdd uchel sy'n ystyried anghenion y plentyn ei hun.

Yn y proffil, cyflwynir y plentyn yn gadarnhaol, rydym yn dysgu am ei rinweddau cadarnhaol, am ei anghenion pwysig na ddylid eu hesgeuluso, a chawn gyfarwyddiadau ar sut i weithio'n effeithiol gyda'r myfyriwr o ganlyniad i'r defnydd o wybodaeth nid yn unig gan y myfyriwr ei hun, ond hefyd gan bobl agos eraill y maent mewn cysylltiad ag ef ac yn debyg iddo (Sanderson, Smith a Wilson, 2012). Mae proffil un dudalen yn cynnwys cyfanswm o dair rhan. Yn gyntaf beth mae eraill yn ei werthfawrogi amdanaf i, beth maen nhw'n ei edmygu amdanaf. Dylai'r rhan hon ddangos rhinweddau cadarnhaol y myfyriwr, ei gryfderau, ei ddoniau, ei ragofynion a'i sgiliau, gan felly ddal ei botensial. Yn ail beth sy'n bwysig i mi. Dylai'r adran hon fod yn fanwl iawn. Cofnodir yma hobiau, diddordebau, hoff bynciau, gweithgareddau ysgol ac allgyrsiol amrywiol a gweithgareddau bob dydd y mae'r plentyn yn ystyried eu bod yn bwysig, yn angenrheidiol neu'n werth chweil. Ac yn drydydd sut gallwch chi fy nghefnogi, yn cynnwys rhestr o opsiynau penodol i helpu'r plentyn; mae'n cynnwys

popeth hanfodol y dylai pobl eraill ei ddysgu, yr hyn y dylent ei wneud, a'r hyn y dylent ei osgoi.

Hefyd, dylid dilyn sawl egwyddor bwysig wrth greu proffil.

Mae'r rhain yn cynnwys: bob amser yn ei lunio'n gadarnhaol a chyda pharch, darparu gwybodaeth fanwl a phenodol am y plentyn a rhoi darlun cyflawn o'r plentyn (os caiff y proffil ei greu'n gywir, dylai pawb gael yr argraff wrth ei ddarllen eu bod yn adnabod y person dan sylw ac yn gwybod pa gymorth sydd ei angen arnynt). Yn ogystal â defnyddio geiriau ac ymadroddion y gall y plentyn ei hun eu deall. Nid oes lle yma i dermau technegol neu ymadroddion cymhleth). Ac yn olaf, gall y proffil gynnwys llun o'r plentyn neu gall y plentyn ei ddarlunio gyda'i luniau ei hun, a fydd yn bendant yn cwblhau'r proffil a'i gysylltu â'i hunaniaeth (Sanderson, Smith a Wilson, 2012, t. 27–30).

Wrth greu proffil un dudalen mae'n hanfodol defnyddio llais y disgybl wrth ystyried pa fath o ymyriad sydd er lles gorau unrhyw blentyn. Mae eu barn yn allweddol i effaith lwyddiannus a'u datblygiad boed yn academiaidd neu'n emosiynol. Dylai'r mewnbwn a roddant gael ei ddefnyddio gan y gweithwyr proffesiynol wrth drafod a chynllunio (Cyngor Ynys Môn a Gwynedd, 2019, t.2). Cafodd proffil un dudalen Efa ei greu gyda hi. Mae hi'n ferch fach alluog ac roedd ei hawgrymiadau'n dreiddgar. Mae Erthygl 12 o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan blant yr hawl i "to say what should happen and for someone to listen to you" (CCUPH, 2020). Mae'r ysgol y mae Efa yn ei mynychu yn gwneud llawer o waith ar hawliau'r plentyn felly mae Efa yn ymwybodol ohonynt. Mae Rudduck (2003, t.344) yn awgrymu bod dull llais y plentyn yn "gatalydd pwysig ar gyfer newid, trwy annog athrawon i archwilio, ac i feddwl am yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth." Fodd bynnag, mae'n bwysig cymryd oedran y plant i ystyriaeth. Fel y soniwyd eisoes, mae Efa yn ddisglair ac aeddfed am ei hoedran, nid yw hyn bob amser yn wir a gall y ffordd hon o weithio creu heriau (Mayes, 2019, t.7). Un o'r ffyrdd o leihau problemau yw sicrhau bod gan yr oedolyn sy'n cefnogi'r plentyn wrth greu'r proffil un dudalen berthynas gadarnhaol ag ef. Mae angen iddynt deimlo'n ddiogel ac yn hyderus er mwyn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u proffil.

Nid yw'r Proffil Un Tudalen yn arf sy'n gyfyngedig i achosion o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn unig. Gall yr athro ei greu ar gyfer pob myfyriwr yn y dosbarth a'i ddefnyddio i ddod i adnabod ei gilydd a gwella perthnasoedd yn ystafell ddosbarth yr ysgol - hynny yw, fel ffordd o helpu i adeiladu hinsawdd ystafell ddosbarth cadarnhaol (Němcová, 2014). Yn wir mae hon yn system a fabwysiadwyd yn ysgol Efa ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol gan fod y plant i gyd yn cael eu masnachu yn yr un modd. Maen nhw i gyd yn cael amser un-i-un gyda'u hathro ac nid oes unrhyw anghenion arbennig yn cael eu hamlygu.

Yn dilyn y trafodaethau a'r gwaith i greu proffil un dudalen Efa ddaw'r gwerthusiadau beirniadol ar sut y gall y gweithwyr proffesiynol o'i chwmpas gefnogi Efa. Mae cynllun cymorth wedi'i ddyfeisio'n ofalus, a'r rheswm am hyn yw, fel y dywed Dilek Erbas o Brifysgol Erciyes, fod cynllun cymorth ymddygiad cadarnhaol wedi'i ganfod fel un o'r dulliau mwyaf effeithiol o leihau ymddygiadau problematig. Dylai fod yn "collaborative assessment based on an approach to developing effective individualized interventions for people with problem behaviour" (Lucyshyn, Horner, Dunlap, Albin, a Ben, 2002). Dylai cynllun cymorth bwysleisio gwerth ymyriadau aml-gydrannol sy'n cynnwys addysgu sgiliau newydd, addasu'r amgylchedd a'r cwricwlwm, a darparu canlyniadau ar gyfer ymddygiadau cadarnhaol a negyddol (Carr a Carlson, 1993). Dyfeisiwyd y cynllun hwn mewn dull cynllunio disgybl-ganolog gan ganiatáu i'r holl randdeiliaid a gweithwyr proffesiynol gyfrannu at benderfynu beth oedd er budd gorau Efa. Fel y gwelir yn ei chynllun cymorth dyfeisiedig amlinellir sawl

strategaeth i helpu datblygiad Efa yn yr ysgol. Un o'r rhain yw rhoi system ar waith i wobrwyo ymddygiad da.

Dywed Patterson (2012) fod problemau ymddygiad mewn ystafell ddosbarth yn cynyddu'r lefelau straen i'r athro a'r disgyblion, yn amharu ar lif gwersi ac yn gwrthdaro ag amcanion dysgu a'r prosesau dysgu. Maent hefyd yn newid deinameg yr ystafell ddosbarth wrth i ffocws y sylw symud o'r tasgau academaidd dan sylw i'r gwrthdysiadau a ddarperir gan ymddygiadau aflonyddgar. Yn anffodus, gall plant fel Efa gael eu labelu fel 'problem', gan ei bod weithiau'n ymddwyn mewn ffyrdd sy'n gwaethygu anawsterau rheoli trwy annog gweithgareddau aflonyddgar. Dywed mai'r ymateb arferol i ymddygiad problematig yw nodi'r plentyn/plant dan sylw fel 'y broblem', canolbwyntio arnynt fel ffynhonnell 'trafferth' a dyfeisio strategaethau yn benodol i ymdrin â'u hymddygiad amhriodol. Fodd bynnag, fel rhan o'r cynllun o amgylch Efa ellid defnyddio'r systemau gwobrwyo a fabwysiadwyd gyda'r holl blant. Mae hyn yn caniatáu i'r holl blant elwa. Efallai na fydd targedu ymyriadau at blant unigol yn yr ystafell ddosbarth yn datrys problem ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth mewn gwirionedd.

Gall strategaethau i reoli neu newid ymddygiad mewn ysgolion gynnwys ymyriadau ysgol gyfan, yn yr ystafell ddosbarth neu ymyriadau unigol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Un system sydd wedi'i rhoi ar waith i gefnogi Efa yw Y Gem Ymddygiad Da (Parsonson 2012) Mae'n cael ei defnyddio'n effeithiol i reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth trwy ymdrechu i leihau ymddygiad aflonyddgar. Mae'r gêm yn cynnwys sefydlu nifer fach o reolau penodol sy'n nodi disgwyliaid ymddygiad cadarnhaol eang, mae'r rheolau hyn yn cael eu rhestru a'u postio lle gall disgyblion eu darllen. Mae'r dosbarth wedi'i rannu'n bedwar tîm o leiaf (mae Efa yn un o gapteiniaid y tîm) a dyfernir pwyntiau tîm am gydymffurfio â rheolau. Mae'r tîm yn cael ei ganmol bob tro mae ei bwyntiau'n cael eu postio a rhoddir gwobr i'r tîm buddugol ar ddiwedd yr wythnos.

Rhan o'r anhawster a achosodd y pontio o'r Blynnyddoedd Cynnar i Flwyddyn un i Efa oedd ei bod bellach mewn ystafell ddosbarth cynllun agored. ystafelloedd dosbarth. Yn ogystal, addysgu mewn grwpiau, cyflwyno hyfforddiant ar y mat ac amrywiaeth o allu a sgil ymhlith disgyblion sydd angen darpariaeth o gyfarwyddyd unigol. Gall y ffactorau hyn i gyd osod cyfyngiadau ar allu athro i reoli ymddygiad yn uniongyrchol ar draws y dosbarth yn ogystal â rheoli anawsterau Efa. Gellir cynorthwyo goruchwyllo a helpu unigolion i ymdopi â materion ymddygiad a thrawsnewid trwy sefydlu rhai rheolau clir ar gyfer ymddygiad disgwyliedig yn ystod gweithgareddau pob un o'r grwpiau amrywiol yn rhaglen ddyddiol y dosbarth ac ar gyfer pontio rhyngddynt. Canfu Fudge et al., (2008) fod defnyddio rheolau cod lliw a system signalau paru i ddangos pa reolau sydd mewn grym ar unrhyw adeg benodol wedi rhoi canllaw hawdd i ddisgyblion ynghylch pa safonau ymddygiad sy'n berthnasol i'w gweithgaredd penodedig. Mae hon yn strategaeth arall a fabwysiadwyd ar gyfer Efa sy'n ei galluogi i gydymffurfio'n haws ac i aros ar y dasg am gyfnodau hwy o amser. Mae gan y system fantais hefyd o fod yn rhagataliol, gan alluogi'r athro i annog Efa i wirio'r disgwyliaid perthnasol a chanmol cydymffurfiaeth gan osgoi adborth negyddol drwy'r amser.

Mae defnyddio amserlen weledol hefyd yn rhan o gynllun cymorth Efa. Mae Sobel ac Alston (2021) yn egluro fod amserlen weledol y dosbarth cyfan yn atgoffa disgyblion o'r hyn i'w ddisgwyl yn ystod amser dosbarth. Mae Tynan a Davy (2021) yn cytuno gan ddweud bod yr holl gyfranogwyr yn yr ystafell ddosbarth wedi canfod amserlenni gweledol yn fuddiol iawn i blant gan eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf. Mae llwyddiant yr amserlenni gweledol a nodwyd mewn astudiaethau amrywiol wedi eu harwain at gael eu hystyried yn 'ddull seiliedig ar dystiolaeth' ar gyfer unigolion (Knight et al., 2015). Mae defnyddio amserlen weledol, a welir fel atodiad 1, yn cael effaith gadarnhaol ar Efa. Mae'n ei helpu i

wybod sut mae ei diwrnod yn mynd i redeg. Gall hefyd gael nodau trwy gydol y dydd sydd weithiau'n ei helpu i reoli ei hymddygiad. Un anfantais, fodd bynnag, yw pe bai unrhyw beth annisgwyl yn digwydd, nad yw'n anghyffredin mewn ystafell ddosbarth yn y cyfnod sylfaen, gall y newid i'r amserlen weledol deimlo'n gythryblus a all gael effaith andwyol ar ei hymddygiad. Mae hon yn her y mae'n rhaid i athrawon dosbarth ymdrin â hi yn sensitif cefnogi Efa i reoli ei hymddygiad ac i reoleiddio ei hun. Fel y gwelwch o'i chynllun mae'n gynhwysfawr ac mae llawer o strategaethau wedi'u cynnwys i gefnogi Efa.

I gloi mae'n amlwg nad yw dod â'r pontio rhwng cyfnodau addysg plentyndod cynnar ac addysg gynradd i ben yn un hawdd i unrhyw blentyn ond mae angen cymorth ac ystyriaeth ychwanegol ar ddysgwyr y mae rhwystrau penodol i'w ddatblygiad yn effeithio ar ei gynnydd. Fel darpar athrawes ar ôl cael y cyfle i fod yn rhan o'r cymorth hwn o ran cynllunio a chyflwyno, teimlaf fy mod yn datblygu technegau newydd i gefnogi fy natblygiad proffesiynol. Mae'n amlwg fod y gefnogaeth a'r ymyrraeth y mae Efa yn ei dderbyn yn yr ysgol yn berthnasol ac addas. Targedu ei hanghenion yn emosiynol ac yn academiaidd. Mae pob strategaeth yn glir ac yn cael effaith gadarnhaol. Nid oes unrhyw hudlath lle mae anawsterau Efa yn y cwestiwn. Fel y dangoswyd drwy gydol ei hanghenion, mae ei hanghenion yn gymhleth ac mae hyblygrwydd athrawon i roi cynnig ar ddulliau gwahanol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod profiadau a pherthnasoedd Efa yn yr ysgol mor gadarnhaol ag y gallant fod.

Mae Harmon (2019) yn cyfeirio at gornel dawel fel "gofod dynodedig yn eich ystafell ddosbarth lle gall myfyrwyr fynd pan fydd angen iddynt reoli eu hemosiynau". Mae gweithio gydag Efa wedi dangos ei bod yn bwysig sicrhau bod lle diogel i'r disgyblion fynd iddo er mwyn adnabod y teimladau hyn, y rheswm pam a sut i'w goresgyn. Yn ogystal, mae'r ymyrraeth a roddwyd ar waith ar gyfer Efa yn fuddiol i'r dosbarth cyfan gan sicrhau bod pob disgybl mewn amgylchedd lle gallant ddysgu, teimlo'n ddiogel a bod yn hapus.

Rhan 2

Pwy sy'n bwysig i mi?

- Mam, Dad, fy Chwaer Popi.
- Fy nghi Jax.
- Mam-gu a Thad-cu.
- Fy athrawes dosbarth.
- Fy cynorthwydd 1 i 1.

Beth sy'n bwysig i mi?

- Lliwio i mewn.
- Chwarae yn yr ardal chwarae rôl.
- Cymorth 1 i 1 wrth weithio ar dasg ffocws.
- Strwythur a threfn arferol.
- Ffiniau cadarn a chyson.
- Adborth cadarnhaol
- Tasgau byr- Rwy'n gweld hi'n anodd canolbwyntio am gyfnodau hir o amser.
- Fy 'Den Diogel' yng nghefn y ddosbarth.

Fy Mhroffil Un Tudalen**Efa**

6 oed

**Beth mae pobl yn edmygu amdanaf i?**

- Mae Efa yn gariadus.
- Mae gan Efa gwen hapus.
- Mae Efa yn ddoniol.
- Mae Efa yn hoffi siarad.
- Mae Efa yn frwdfrydig.

Sut i fy nhefnogi i?

- Cael cymorth fy 1:1 wrth weithio ar dasgau ffocws.
- Sicrhau bod tasgau'n cael eu rhannu'n ddarnau cyraeddadwy.
- Rhwch lawer o ganmoliaeth ac anogaeth i mi.
- Weithiau mae angen i mi eistedd ar eich pen-glin i gael sicrwydd.
- Rhwch gyfle i mi ddod i mewn i'r dosbarth yn ystod amser chwarae. Mae amseroedd distrwythur yn anodd i mi weithiau.
- Defnyddiwch gyfarwyddiadau clir. Weithiau bydd angen eu hailadrodd sawl gwaith.

CYNLLUN CEFNOGAETH WEDI'I DYFEISIO AR GYFER

EFA

- ✚ Sefydlu'r system 'Good behaviour Game'
- ✚ Defnyddio cardiau rheolau codau lliw
- ✚ Rhoi gyfrifoldebau i Efa o fewn y dosbarth
- ✚ Sefydlu ardal yn yr ystafell ddosbarth y gall ei defnyddio i reoli ei hemosiynau, a gwybod ei bod yn cael gadael gweithgaredd a rhedeg i ffwrdd i'r ardal honno.
 - Bocs o deganau synhwyrdd -
 - troellwyr fidget, teganau squishy, posau ac ati
 - Doliau/tŷ doliau
 - Bag ffa/clustogau
 - blanced/blanced wedi'i phwysoli
 - cymeriadau byd bach/dinosoriaid ac ati
- ✚ Meddu ar gynllun wrth gefn ar gyfer amseroedd anstrwythuredig y mae pob aelod o staff yn gyfarwydd ag ef.
- ✚ Osgoi sbardunau
- ✚ Sicrhewch fod allanfeydd bob amser yn ddiogel er mwyn ei chadw'n ddiogel
- ✚ Sicrhewch fod y 'Sleeping Lion' yn hygyrch bob amser.
- ✚ Defnydd amserlen weledol
- ✚ Defnydd fwrdd emosiynau.

Cynllun Cynnydd			
	Gweithgaredd	Ffocws	Fel
Cam 1	Gem ymddygiad da	Helpu Efa i reoli ei ymddygiad o fewn y dosbarth.	Esbonio'r gêm I Efa a'i chyd-ddisgyblion. Rhoi amser I Efa gyda'i chymorth 1 i 1 i ofyn cwestiynau a rheolau'r gêm. Sicrhau mae Efa yw 'Rheolwr' tîm hi er mwyn gwneud ddi hi deimlo'n fwy hyderus.
Cam 2	Gwobrwyo ymddygiad da.	Dangos i Efa bod ymddygiad da yn arwain at glod.	Gwobrwyo ymddygiad da gan roi gwobr (sticer, amser rhydd, dewis gweithgaredd). Sicrhau bod clod cyson. Dangos bod pethau da a hwyl yn digwydd os yw ymddygiad Efa yn aros yn gyson.
Cam 3	Bwrdd emosiynau Atodiad 2	Dull gweledol i hybu Efa I ddangos sut mae'n teimlo heb golli tymer neu redeg.	Rhoi'r bwrdd yn 'Den Diogel' Efa. Dangos iddi sut i ddefnyddio'r bwrdd. Trwy roi strategaethau gwahanol iddi. Rhoi'r dewis I Efa e.e. eisiau Amser Allan os ydy hi'n grac.
Cam 4	Amserlen Weledol Atodiad 1	Dangos newidiadau a chynllun y dydd er mwyn osgoi newid ymddygiad	Dangos trefn y dydd i Efa yn ei 'Den Diogel', gan gynnwys os oes unrhyw newidiadau i drefn ddyddiol arferol. Gadael I Efa symud i saith trwy gydol y dydd. Bydd hyn yn helpu hi deall beth fydd yn digwydd nesaf.
Cam 5	Parhau		Parhau gyda'r strategaethau yma ar y cyd. Sicrhau bod 1 I 1 Efa yn paratoi tasgau iddi ar gyfer yr amseroedd fe fydd hi yn y 'Den Diogel'. Amrywio'r gweithgareddau sy'n cael ei chynnig er mwyn cadw Efa wedi'i diddanu.
Monitro	Bydd cynnydd Efa yn cael ei fonitro trwy ei hymddygiad. Bydd y cymorth 1 I 1 a'r athrawes dosbarth yn cyfarfod ar ddiwedd yr hanner tymor er mwyn trafod beth wnaeth llwyddo a beth sydd angen newid ar gyfer y tymor nesaf. Mae yna hefyd cyfarfod gyda Chymorth Ymddygiad y sir ar ddiwedd y cyfnod yma.		
Cysylltiad cwricwlwm	"Rwy'n gallu sylwi sut rwy'n teimlo, a chyfathrebu hyn" "Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimladau yn fy nghydberthnasau"		

Rhestr Cyfeirnod

Bellis, M.A., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K.J., Bishop, J. a Paranjothy, S. (2016). *Adverse childhood experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population*. Public Health Wales NHS Trust.

Bowlby J. (1969). *Attachment. Attachment and loss: Vol. 1. Loss*. New York: Basic Books.
(Mynediad: 1/11/2022)

Bowman, B. (1993). *Chapter 3: Early childhood education*. Review of research in education, 19(1), pp.101-134.

Carr, E.G. a Carlson, J.I. (1993). *Reduction of severe behavior problems in the community using a multicomponent treatment approach*. Journal of Applied Behavior Analysis, 26(2), pp.157-172.

Crow, G a Wiles, R. (2008) *Managing anonymity and confidentiality in social research: the case of visual data in Community research*. Working Paper Series. Ar gael:
http://eprints.ncrm.ac.uk/459/1/0808_managing%2520anonymity%2520and%2520confidentiality.pdf Mynediad: (1/11/2022)

Cyngor Ynys Môn & Cyngor Gwynedd (2019) *Strategaeth Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad*. Ar gael: <http://ysgolardudwy.cymru/wp-content/uploads/2019/09/Llyfryn-Gwasanaeth-ADYaCh.pdf> Mynediad: (30/10/22)

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus. Hawlfraint y Goron*. Caerdydd. Ar gael ar:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>
(Mynediad: 27/10/2022)

Foudová, M a Slowík, J. (2017). *One page profile and its use in the process of individual planning for pupils with special educational needs*. Paidagogos-Journal of Education in Contexts, 2016(2).

Gibson, D., Ostashewski, N., Flintoff, K., Grant, S. a Knight, E. (2015). *Digital badges in education*. Education and Information Technologies, 20(2), pp.403-410.

GIG Great Ormond Street Hospital for Children (2016) *Attention deficit hyperactivity disorder (ADHD)*. Ar gael: <https://www.gosh.nhs.uk/conditions-and-treatments/conditions-we-treat/attention-deficit-hyperactivity-disorder-adhd> (Mynediad: 28/10/2022)

González-Moreira, A., Ferreira, C. a Vidal, J. (2021). *Comparative Analysis of the Transition from Early Childhood Education to Primary Education: Factors Affecting Continuity between Stages*. European Journal of Educational Research, 10(1), pp.441-454.

Harmon-Jones, E. a Mills, J. (2019). *An introduction to cognitive dissonance theory and an overview of current perspectives on the theory*.

Howe, K.R a Moses, M.S. (1999). *Chapter 2: Ethics in educational research*. Review of research in education, 24(1), pp.21-59.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) *Adverse Childhood Experiences and their association with chronic disease and health service use in the Welsh adult population*. Ar gael:
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/ACE%20Chronic%20Disease%20report%20%289%29%20%282%29.pdf> (Mynediad: 30/10/2022)

Llywodraeth Cymru (2018) Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/> Mynediad: (31/10/22)

Llywodraeth Cymru (2019) *Cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADHD) mewn lleoliadau addysgol*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/ffyrdd-o-gefnogi-dysgwyr-ag-anhwylder-diffyg-canolbwytio-a-gorfywiogrwydd-adhd.pdf>

Llywodraeth Cymru (2020) Canllawiau Iechyd a Lles. Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/> Mynediad: (31/10/22)

Llywodraeth Cymru (2020) Cwricwlwm i Gymru. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru> Mynediad: (1/11/22)

Lucyshyn, J.M., Horner, R.H., Dunlap, G., Albin, R.W. a Ben, K.R. (2002). *Positive behavior support with families*. Paul H Brookes Publishing.

Mayes, E., Finneran, R a Black, R. (2019). *The challenges of student voice in primary schools: Students 'having a voice' and 'speaking for' others*. Australian Journal of Education, 63(2), pp.157-172.

McClam, T., Diambra, J.F., Burton, B., Fuss, A. a Fudge, D.L. (2008). *An analysis of a service-learning project: Students' expectations, concerns, and reflections*. Journal of Experiential Education, 30(3), pp.236-249.

Newman, M. a Gough, D. (2020). *Systematic reviews in educational research: Methodology, perspectives and application*. Systematic reviews in educational research, pp.3-22.

Parsonson, B.S. (2012). *Evidence-Based Classroom Behaviour Management Strategies*. Kairaranga, 13(1), pp.16-23.

Rogers, C. (1959). *A theory of therapy, personality and interpersonal relationships as developed in the client-centered framework*. New York: McGraw Hill.

Rose, R a Howley, M. (2006). *The practical guide to special educational needs in inclusive primary classrooms*. Sage.

Ryder, N. (2013) *Yr ABC i Anghenion Ychwanegol. Canolfan Peniarth: Prifysgol y Drindod Dewi Sant*. (Mynediad: 26/10/2022)

Siegel, D.(2014) *Dan Siegel: Name it to Tame it*. [fideo]. Ar gael: <https://www.youtube.com/watch?v=ZcDLzppD4Jc> (Mynediad: 3/11/2022)

Sobel, D., Alston, S. (2021). *The Inclusive Classroom: A new approach to differentiation*. Bloomsbury Publishing.

Tynan, F a Davy, K. (2021). *An Exploration of Teachers' Perceptions of how the Classroom Environment Can Support Pupils with Autism Spectrum Disorder (ASD) in the Mainstream Primary School*. REACH: Journal of Inclusive Education in Ireland, 34(1).

Watt, D. (2019). *Video production in elementary teacher education as a critical digital literacy practice*. Media and Communication, 7(2), pp.82-99.

Weiss, R.S. (2006). *The attachment bond in childhood and adulthood*. In Attachment across the life cycle (pp. 74-84). Routledge.

AtodiadAtodiad 1

Amserlen Weledol yn yr ysgol a rhoddir gan Cymorth Ymddygiad y sir.

Carmarthenshire Behaviour Support Community Team**Visual Timetable**

This Visual resource has been created to support learners both in the classroom and at home. A visual timetable communicates a sequence of events/activities. It can therefore be a crucial tool in helping children follow their routines throughout their day. Staff can use a visual timetable for the whole class and encourage them to take an active role in removing tasks once they are complete.

For children who are recognised to need the information specifically, it is advisable that they have their own portable visual timetable where they are encouraged to remove/change the activities on their own timetable throughout the day. This could even be presented as a "now and next" visual with only two steps and be gradually increased to a morning/afternoon timetable before a full day. Some learners also benefit from a "Finished box" to use when they remove a picture from their timetable.

For learners who may be struggling outside of the school environment, the second part of the resource can be used by parents who may benefit from support with structure and routines at home.

The timetable can be printed (at the set size, made smaller or larger), cut and laminated for display in the classroom and for individual pupils/groups. Please feel free to edit the wording/translate as necessary to suit your setting.

Please feel free to contact myself or your allocated BSCT member for further advice and guidance on using and implementing a visual timetable at your setting.

_____, Behaviour Support Teacher





Atodiad 2

Bwrdd Emosiwn

When I am worried, I can.....



--	--	--	--

When I am angry, I can.....



--	--	--	--

When I am scared, I can.....



shutterstock.com - 48448925

--	--	--	--

When I am sad, I can.....



--	--	--	--

10

Slowly, count to ten.



Ask for help



Use a squishy toy



Use a Sand Tray



Have a sensory box

Go to the sensory
room

Give yourself a Catfish

Take a time out on a
beanbag

Go for a safe walk

Have a go at some
mindful drawing

Doodle



Use a Calming jar

Listen to calming
music

Have a drink of water.

Spend a little time playing
with some LegoPractice your rainbow
breathingWash my face with
cold water

Have a time out.

